Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Rhan 1 – Adran 6 Adroddiad ar y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2023

CYNGOR CYMUNED LLANBEDR – crewyd Mehefin 2023

Lleolir Llanbedr yn ganol Parc Cenedlaethol Eryri ac mae'r ardal o fewn ffin y Cyngor Cymuned yn ymestyn o lannau Bae Tremadog i fyny trwy Gwm Nantcol a Chwm Bychan i ganol mynyddoedd y Rhinogydd. Mae'n ardal gyda llawer o gynefinoedd bywyd gwyllt gwerthfawr ac mae'n cynnwys Gwarchodfa Biogeneteg – Rhinog, rhannau o Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Coedwig Goed Derw ac Ystlumod Meirionnydd, rhan o ACA Penllyn a'r Sarnau a nifer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Gwarchodfeydd Natur Genedlaethol. Mae rhan helaeth o Warchodfa Natur Genedlaethol Morfa Dyffryn wedi'i leoli o fewn ffiniau Cyngor Cymuned Llanbedr.

Nid oes gan y Cyngor Cymuned unrhyw gyfrifoldebau penodol am reoli'r cynefinoedd arbennig yma on mae'r Cyngor yn ceisio codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth yn unol â'n Polisi Cynaliadwyedd sydd ar gael ar wefan y Cyngor Cymuned. Yn ogystal, er mwyn annog a hwyluso mwynhad a mynediad tawel i'r coedydd perthnasol mae'n is-bwyllgor; *Llwybrau Llanbedr* wedi cydweithio gyda Pharc Cenedlaethol Eryri, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a Choed Cadw i ddarparu arwyddion a gwybodaeth dehongli i hyrwyddo teithiau cerdded yn cysylltu rhannau o ACA Goed Derw ac Ystlumod Meirionnydd.

Mae Cyngor Cymuned Llanbedr yn darparu amrediad o wasanaethau i'w gymuned leol sy'n medru cael effaith ar fioamrywiaeth.

Mae'r rhain yn cynnwys:

• Rheoli'r Cae Chwarae, Cae Deiliog, Mynwent y Plwyf (Ger Eglwys Pedr Sant), y Gof Golofn, a gardd goffa ar gyfer plannu coed yn y Cae Chwarae.

    - Lle bo'n ymarferol rheoli torri glaswellt i hyrwyddo twf blodau gwyllt cynhenid
    - Pan fydd rhaid mynd i'r afael a chwyn ymledol fel Canclwm Siapian – rydym yn dalu Cyngor Gwynedd neu contractwyr cymwys i'w rheoli

  - Mae gennym man compostio yn y fynwent – ar gyfer toriadau gwair a blodau. Mae yna croeso i'r cyhoedd ddefnyddio'r compost yma

• Trefnu dysglau a basgedi crog o gwmpas y pentref.

Rydym hefyd wedi cydweithio gyda Chanolfan Cymdeithasol Llanbedr i:

- rheoli Cae Deiliog i annog twf blodau gwyllt cynhenid a hefyd plannu Cennin Pedr a hau blodau gwyllt i ddenu gwenyn, gloÿnnod byw a mathau eraill o bryfetach
- Plannu coed yn y Cae Chwarae er mwyn:
    - rhoi mwynhad i ddefnyddwyr y Cae Chwarae a Chae Deiliog
    - creu gwrych traddodiadol rhwng Cae Deiliog a stad Bryn Deiliog
    - hybu bywyd gwyllt a darparu llefydd i adar nythu
    - rhoi cyfle i'r gymuned gwirfoddoli yn waith rheoli Cae Deiliog
    - darparu lle i drigolion ac ymwelwyr cael eistedd a mwynhau natur a chymdeithasu yn dawel yn yr awyr agored